


Briff Ymchwil

# Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

- Crynodeb o Fil
- Crynodeb o newidiadau Cyfnod 2

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Christian Tipples**
Dyddiad: **Mawrth 2017**
Rhif Papur: **17-002**
Clawr blaen: **Llun flickr gan Images Money. Trwydded Creative Commons.**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 7393**
: **Christian.Tipples@Cynulliad.Cymru**
: **Cynulliad.Cymru/Pigion**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. **Cyflwyniad** ..... 1
2. **Cefndir y Bil** ..... 1
   - Datganoli pwerau trethu ..... 1
   - Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ..... 2
   - Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) ..... 2
   - Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) ..... 3
   - Ymgynghoriad a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru ..... 3
3. **Crynodeb o'r Bil** ..... 5
   - Rhan 1: Trosolwg o'r Ddeddf ..... 5
   - Rhan 2: Y Dreth a'r Prif Gysyniadau ..... 5
   - Rhan 3: Cyfrifo Treth a Rhyddhadau ..... 6
   - Rhan 4: Lesoedd ..... 6
   - Rhan 5: Sut mae'r Ddeddf a'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn Gymwys i Bersonau a Chyrff Penodol ..... 6
   - Rhan 6: Ffurflenni Treth a Thaliadau ..... 6
   - Rhan 7: Y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi ..... 7
   - Rhan 8: Dehongli a Darpariaethau Terfynol ..... 7
   - Atodlenni ..... 7
4. **Costau ac effeithiau'r Bil** ..... 7
   - Costau ..... 7
   - Cynilion ..... 8
5. **Ymatebion i’r Bil** ..... 8
6. **Amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu** ..... 11
7. **Crynodeb o newidiadau Cyfnod 2** ..... 12
   - Cefndir ..... 12
   - Gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2 ..... 12
   - Y camau nesaf ..... 14
   - Gwybodaeth bellach ..... 14

# 1. Cyflwyniad

**Dyddiad cyflwyno:** 12 Medi 2016
**Yr Aelod sy'n gyfrifol:** Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
**Pwyllgor y Cynulliad sy'n gyfrifol am waith craffu yng Nghyfnod 1:** Y Pwyllgor Cyllid
**Dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1:** 22 Rhagfyr 2016

Cyflwynwyd **y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)** ('y Bil') gerbron y Cynulliad ar 12 Medi 2016. Cyflwynwyd y Bil yn y Cyfarfod Llawn gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, ar 13 Medi 2016.

Y Bil hwn yw'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud yn benodol â threthi i gael ei gyflwyno yn y Cynulliad. Mae'n cyflwyno darpariaethau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru, a fydd yn cymryd lle Treth Dir y Dreth Stamp ym mis Ebrill 2018. Y Bil yw'r ail mewn cyfres o dri Bil sy'n ymwneud â datganoli pwerau trethu i Gymru, fel y nodwyd yn Neddf Cymru 2014.

Mae'r Bil yn dilyn **Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016**, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 25 Ebrill 2016. Roedd y Ddeddf honno'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol, ac yn sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), sef y corff sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli trethi datganoledig.

Y **Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)** oedd y trydydd Bil i gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad ar 28 Tachwedd 2016. Diben y Bil hwnnw yw gwneud darpariaethau ar gyfer treth newydd i gymryd lle Treth Dirlenwi'r DU yng Nghymru.

# 2. Cefndir y Bil

## Datganoli pwerau trethu

Gwnaed argymhelliad y dylid datganoli pwerau trethu i Gymru gan Gomisiwn Silk yn ei adroddiad **Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau ariannol i gryfhau Cymru**. Argymhellodd y Comisiwn y dylid datganoli'r trethi a ganlyn i Gymru:

– Treth Dir y Dreth Stamp

– Y Dreth Dirlenwi

– Yr Ardoll Agregau

– Treth Incwm (i'w datganoli'n rhannol)

Gwnaed darpariaethau yn **Neddf Cymru 2014** ar gyfer datganoli pwerau trethu newydd i Gymru. Roedd y Ddeddf honno'n darparu strwythur i Lywodraeth Cymru allu deddfu mewn perthynas â meysydd y mae Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd, sef trethi y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu datganoli i Gymru ar 1 Ebrill 2018.

Mae'r Papur Gorchymyn, **Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol**, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, yn nodi manylion ar roi ar waith a gweithredu pwerau trethu a benthyca newydd y Cynulliad, ac mae hefyd yn sôn ymhellach am ddatganoli'r ardoll agregau i Gymru, sydd ar hyn o bryd yn amodol ar ddatrys heriau cyfreithiol yn Llys Ewrop.

Yn Natganiad ac Adolygiad o Wariant tymor yr hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n diddymu'r angen am refferendwm i ddatganoli'r dreth incwm yn rhannol i Gymru, a nodir yn y drafft cyfredol o Fil Cymru y mae dau Dŷ'r Senedd yn San Steffan wrthi'n craffu arno ar hyn o bryd. Dyma fydd y ffynhonnell fwyaf o refeniw treth i gael ei rheoli gan Lywodraeth Cymru.

Y bwriad yw rhoi'r gorau i Dreth Dir y Dreth Stamp o fis Ebrill 2018 ymlaen, a chyflwyno'r Dreth Trafodiadau Tir yn ei lle yng Nghymru. Yn ôl y papur gorchymyn, drwy ddatganoli pwerau trethu i Gymru, gellid gwneud Llywodraeth Cymru yn fwy atebol o safbwynt ariannol, drwy ei gwneud (Llywodraeth Cymru) yn atebol am godi mwy o'r arian a gaiff ei wario ganddi, yn unol ag argymhelliad Comisiwn Silk yn ei adroddiad.

Cyhoeddodd y Swyddfa sydd â Chyfrifoldeb dros y Gyllideb ei rhagolwg o ran trethi datganoledig ar gyfer Cymru ym mis Tachwedd 2016 ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi a'r symiau oedd £240 miliwn a £27 miliwn yn y drefn honno yn 2018-19. Dyma pryd y bwriedir datganoli'r ddwy dreth i Gymru. Mae Tabl 1 yn dangos y rhagolygon ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir hyd at 2022:

**Tabl 1: Rhagolwg o ran y Dreth Trafodiadau Tir o 2016-17 hyd at 2021-2022**

| | | | | £ miliwn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-2021** | **2021-2022** |
| Preswyl | 118 | 139 | 154 | 172 | 194 | 220 |
| Amhreswyl | 80 | 81 | 86 | 89 | 95 | 99 |
| Cyfanswm a rhagwelir | **198** | **221** | **240** | **261** | **289** | **319** |

Ffynhonnell: Y Swyddfa sydd â Chyfrifoldeb dros y Gyllideb, Devolved Taxes Forecast, Tachwedd 2016

Yn ôl rhagolwg y Swyddfa sydd â Chyfrifoldeb dros y Gyllideb, disgwylir i'r Dreth Trafodiadau Tir gynyddu 80 y cant rhwng 2016-17 a 2021-22. Mae Tabl 1 yn dangos y bydd refeniw'r Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer eiddo preswyl yn parhau i gynyddu'n gyflymach na refeniw treth amhreswyl o un flwyddyn i'r nesaf.

## Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

Cafodd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ar 25 Ebrill 2016. Diben y Ddeddf hon yw cyflwyno'r fframwaith cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol.

Yn benodol, mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu adran anweinidogol Awdurdod Cyllid Cymru, a fydd yn gyfrifol yn bennaf am gasglu a rheoli trethi datganoledig.

## Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

Cyflwynwyd y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) yn y Cynulliad ar 12 Medi 2016. Cyn hyn, cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o'r Bil ar 13 Gorffennaf 2016 gan roi cyfle i randdeiliaid graffu ar y Bil cyn iddo gael ei gyflwyno'n swyddogol.

Mae'r Bil Treth Trafodiadau Tir hwn yn nodi'r trafodion y codir Treth Trafodiadau Tir arnynt a phwy sy'n agored i dalu'r dreth honno; y gweithdrefnau ar gyfer pennu cyfraddau a bandiau'r dreth, ac ar gyfer cyfrifo'r Dreth Trafodiadau Tir a'r gostyngiadau sydd ar gael; darpariaethau ar gyfer paratoi ffurflen Dreth Trafodiadau Tir a thalu'r dreth; dyletswyddau trethdalwyr i dalu'r dreth, y cosbau a'r llog perthnasol; a mesurau i fynd i'r afael ag osgoi trethi yng Nghymru.

Ar 1 Gorffennaf 2016, **cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet** y byddai Awdurdod Cyllid Cymru yn llwyr gyfrifol am reoli a chasglu'r Dreth Trafodiadau Tir gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn darparu arbenigedd a gwybodaeth drwy roi benthyg aelodau o staff a threfnu secondiadau i ddatblygu a gwella arbenigedd Awdurdod Cyllid Cymru o ran cydymffurfio â’r Dreth Trafodiadau Tir.

## Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)

Mae'r **Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi** yn ymwneud â sefydlu'r fframwaith cyfreithiol, gweinyddol a gweithredol ar gyfer y dreth yng Nghymru. Mae'r Dreth Dirlenwi ar hyn o bryd yn dreth y DU ar gael gwared ar ddeunydd fel gwastraff trwy ei roi mewn safleoedd tirlenwi a ganiateir o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol. Cyflwynwyd y dreth bresennol ym 1996 fel elfen allweddol i sbarduno newid mewn ymddygiad amgylcheddol trwy roi cymhelliant i ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, gan ailgylchu, ailddefnyddio ac adennill mwy o wastraff.

## Ymgynghoriad a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru

### Datganoli trethi yng Nghymru – y Dreth Trafodiadau Tir

Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **hymgynghoriad ar Ddatganoli Trethi i Gymru – Treth Trafodiadau Tir**, a oedd yn gofyn am safbwyntiau ar fformat treth newydd yng Nghymru i gymryd lle Treth Dir y Dreth Stamp o fis Ebrill 2018 ymlaen.

Dyma'r ail mewn cyfres o ymgynghoriadau oedd â'r nod o ddatblygu'r trefniadau o ran trethi datganoledig yng Nghymru. Gan baratoi i ddatganoli'r trethi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar **gasglu a rheoli trethi datganoledig** ym mis Medi 2014.

Cafwyd **38 o ymatebion** i'r ymgynghoriad gan ymatebwyr yng Nghymru, gan gynnwys canghennau Cymru o sefydliadau'r DU neu sefydliadau'r DU sydd â phrofiad o weithredu'r trefniadau treth presennol yng Nghymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **grynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad** ym mis Medi 2015.

Nododd y cyn-Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yr egwyddorion ar gyfer trethi Cymru yn y ddogfen ymgynghori:

> *Bydd y trethi y byddwn ni’n eu datblygu: yn deg i’r busnesau a’r unigion sy’n eu talu; yn syml, gyda rheolau clir sy’n ceisio lleihau’r costau cydymffurfio a gweinyddu i’r eithaf; yn cefnogi twf a swyddi, a hynny yn ei dro yn helpu i fynd i’r afael â thlodi; ac yn darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr.*

Roedd yr ymgynghoriad yn ymhelaethu ar waith Llywodraeth y DU i ddiwygio Treth Dir y Dreth Stamp o system cyfradd slab i system cyfradd ymylol ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl, a fyddai, ym marn Llywodraeth Cymru, yn system decach sy'n ystumio llai na'r system slab preswyl flaenorol. Fodd bynnag, ar y pryd, roedd trethi'n dal i gael eu codi ar drafodiadau eiddo amhreswyl gan ddefnyddio'r system slab, a newidiwyd i fod yn **system cyfradd ymylol** gan Lywodraeth y DU ym mis Mawrth 2016.

Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar amrywiaeth o feysydd:

– Trafodiadau eiddo preswyl ac amhreswyl

– Partneriaethau, ymddiriedolaethau a chwmnïau

– Lesoedd

– Rhyddhadau ac esemptiadau

– Cydymffurfio, osgoi, anghydfodau a chosbau.

Ymchwiliodd Llywodraeth Cymru i sawl mater yn ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir, gan gynnwys:

– A yw cyfraddau a bandiau presennol Treth Dir y Dreth Stamp yn addas i Gymru?

– Y prif effeithiau pe bai gan Gymru gyfundrefn dreth wahanol ar gyfer y farchnad breswyl a'r farchnad amhreswyl

– Y gallu i newid cyfraddau a bandiau neu gyflwyno rhai newydd i'w rhoi ar waith ar unwaith

– Y diffiniad o eiddo preswyl o ran Treth Dir y Dreth Stamp

– Pwysigrwydd sicrhau cysondeb rhwng cyfundrefnau treth

– A ddylid cadw rhyddhadau neu esemptiadau Treth Dir y Dreth Stamp, eu haddasu neu gael gwared arnynt neu a ddylid cyflwyno rhyddhadau newydd at ddibenion y Dreth Trafodiadau Tir

– Y gofynion o ran ffeilio ffurflenni ar-lein

– Yr angen am gyfleuster clirio ymlaen llaw ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir

– Y gallu i roi cosbau am ddychwelyd ffurflenni'n hwyr yn debyg i'r rhai a roddir gan Gyllid a Thollau EM

– Gwella'r broses apeliadau a'r rheolau ynghylch osgoi trethi.

Nodwyd yn y **Memorandwm Esboniadol:**

> *Neges glir a leisiwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad LTT oedd fod cysondeb ag SDLT, ble bynnag y bo'n briodol, yn ddymunol iawn i drethdalwyr, asiantau a busnesau.*

Nododd Llywodraeth Cymru fod y Bil yn cyd-fynd yn agos ag ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad.

### Treth Trafodiadau Tir: Pennu cyfraddau a bandiau

Paratôdd Llywodraeth Cymru **bapur trafod ynghylch pennu'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir**. Mae'r papur yn trafod pwy y mae newidiadau i'r drefn ar gyfer trethu trafodiadau tir ac adeiladau yn effeithio arnynt ac yn egluro sut y gall newidiadau o'r fath effeithio ar brisiau, nifer y trafodiadau a chartrefi a busnesau; yn edrych yn fanylach ar strwythur presennol Treth Dir y Dreth Stamp; yn rhoi trosolwg o'r Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau, sy'n cymryd lle Treth Dir y Dreth Stamp yn yr Alban; a'r prif ffactorau y mae angen eu hystyried cyn datblygu'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru.

Roedd y papur yn pwysleisio:

> *Yn fras, mae'r dreth trafodiadau tir yn atgynhyrchu treth dir y dreth stamp. Ni fydd unrhyw newidiadau er mwyn newid - pan fo gwahaniaethau, mae'r rhain yn sicrhau bod y dreth trafodiadau tir yn symlach, yn effeithlon ac yn deg i drethdalwyr.*

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu pennu cyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir yn nes at yr amser y daw'r dreth yn weithredol ym mis Ebrill 2018, fel y gall adlewyrchu'r amodau economaidd

bryd hynny yn well. O ran cyhoeddi'r cyfraddau a'r bandiau treth, roedd y papur yn awgrymu bod yr Alban yn gymharydd defnyddiol a phwysig i Gymru, gan fod Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau yn 2015.

### Treth Trafodiadau Tir: Cyfraddau uwch ar gyfer prynu eiddo preswyl ychwanegol

Yn Natganiad yr Hydref 2015, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU** y byddai'n cyflwyno cyfradd uwch o dreth ar gyfer prynu eiddo preswyl ychwanegol, a fyddai'n gymwys o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Ar ôl hynny, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad** ym mis Gorffennaf 2016 er mwyn canfod barn rhanddeiliaid ar y dull posibl o roi cyfraddau uwch ar waith at ddibenion y Dreth Trafodiadau Tir.

Dywedodd Llywodraeth Cymru pe na bai cyfraddau uwch ar gyfer prynu eiddo preswyl ychwanegol yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r Dreth Trafodiadau Tir, gallai hynny arwain at golled sylweddol o ran adnoddau ar gyfer buddsoddi yng Nghymru:

> *Yn ôl rhagolygon diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ar sail Cyllideb mis Mawrth 2016, gallai'r cyllid o gyfraddau uwch yr SDLT newydd ar gyfer eiddo preswyl ychwanegol yng Nghymru fod oddeutu £14 miliwn yn 2016-17, gan godi i £18 miliwn erbyn 2020-21.*

Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar:

- Y mathau o lety ac unigolion y dylai cyfraddau uwch fod yn gymwys iddynt
- Y dull ar gyfer achosion o brynu sawl eiddo preswyl ychwanegol
- Canllawiau ychwanegol a newidiadau posibl er mwyn cyd-fynd yn well â'r cyd-destun yng Nghymru
- Y goblygiadau posibl i bolisïau yn sgil cyfraddau uwch
- Y gallu i Lywodraeth Cymru newid y cyfraddau treth ar gyfer achosion o brynu eiddo ychwanegol.

Ar 14 Hydref 2016, **cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet** y byddai cyfradd uwch o dreth ar gyfer eiddo preswyl ychwanegol yn parhau i gael ei chodi yng Nghymru pan gaiff Treth Dir y Dreth Stamp ei datganoli ym mis Ebrill 2018.

# 3. Crynodeb o'r Bil

Mae'r Bil wedi ei rannu yn wyth Rhan, yn cynnwys 80 adran a 22 o Atodlenni:

## Rhan 1: Trosolwg o'r Ddeddf

Trosolwg o'r Bil, sy'n disgrifio cynnwys y Rhannau sy'n dilyn, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth y bwriedir iddi gael effaith gyfreithiol.

## Rhan 2: Y Dreth a'r Prif Gysyniadau

Y prif gysyniadau, gan gynnwys diffiniadau, sy'n darparu y bydd y Dreth Trafodiadau Tir yn gymwys i drafodiadau sy'n ymwneud ag eiddo (gan gynnwys tir ac adeiladau) a leolir yng Nghymru; y math o drafodiadau sydd i'w hystyried yn drafodiadau tir a pha fuddiannau sydd i'w hystyried (neu'r rhai na fyddant yn cael eu hystyried) yn fuddiannau trethadwy neu'n fuddiannau esempt at ddibenion y Bil a phwy fydd yn atebol i dalu Treth Trafodiadau Tir a chydymffurfio â gofynion hysbysu.

At ddibenion y Dreth Trafodiadau Tir, trafodiad tir yw'r broses o gaffael "buddiant trethadwy". Buddiant trethadwy yw unrhyw ystâd, buddiant, hawl neu bŵer dros dir yng Nghymru neu fuddiant ar ffurf rhwymedigaeth neu gyfyngiad sy'n effeithio ar ystâd, buddiant, hawl neu bŵer o'r fath dros dir yng Nghymru. Ni chaniateir codi'r Dreth Trafodiadau Tir ar drafodiad tir yng Nghymru sy'n ymwneud â thir sy'n is na'r marc distyll cymedrig. Nid yw buddiannau trethadwy yn cynnwys buddiannau esempt.

Os bydd buddiant trethadwy yn cynnwys tir sy'n rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr, caiff y trafodiad ei drin fel dau drafodiad ar wahân, un yn ymwneud â Chymru ac un yn ymwneud â Lloegr. Caiff y taliad neu gydnabyddiaeth arall ar gyfer y trafodiad ei ddosrannu. Codir y Dreth Trafodiadau Tir ar y trafodiad tir yng Nghymru a Threth Dir y Dreth Stamp ar y gweddill.

## Rhan 3: Cyfrifo Treth a Rhyddhadau

Cyfrifir y Dreth Trafodiadau Tir ar sail cyfrifiad cyfradd ymylol - codir treth ar gyfraddau cynyddol uwch ar wahanol rannau o'r gydnabyddiaeth. Mae hyn yr un fath â'r dull presennol o gyfrifo Treth Dir y Dreth Stamp. Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno fframwaith ar gyfer pennu'r Dreth Trafodiadau Tir sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu o leiaf tri band y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn fand cyfradd sero ac mae'n ofynnol i'r cyfraddau fod yn gynyddol eu natur. Nid yw'r cyfraddau a'r bandiau wedi'u nodi ar wyneb y Bil, ond fe'u pennir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn nes at y dyddiad gweithredu.

Bydd y set gyntaf o reoliadau sy'n pennu cyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol; bydd yr ail set o reoliadau a'r rhai dilynol yn ddarostyngedig i weithdrefn y cyfeirir ati fel gweithdrefn 'gadarnhaol dros dro'. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n effeithiol dros dro cyn gynted ag y maent yn cael eu gwneud gyda'r bwriad o sicrhau na fydd newidiadau yn gwyro'r farchnad.

Os na fydd y rheoliadau'n cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad o fewn 28 diwrnod byddant yn peidio â chael effaith ac mae'n bosibl y caiff unrhyw dreth a dalwyd ar gyfradd uwch yn ystod y cyfnod yr oedd y rheoliadau mewn grym dros dro ei had-dalu, h.y. ni fydd hyn yn anfantais i'r rhai sy'n talu'r dreth ar yr amod eu bod yn hawlio'r rhyddhad priodol.

Mae Rhan 3 hefyd yn cyflwyno cyfres o Ryddhadau a nodir ar wyneb y Bil yn Atodlenni 8 i 21. Mae'r Atodlenni yn darparu ar gyfer y trafodiadau a ddylai fod yn destun rhyddhad rhag talu'r Dreth Trafodiadau Tir a phryd y dylid cymhwyso rhyddhadau o'r fath. Mae'r Bil yn cynnwys 'Rheol wedi’i thargedu yn erbyn Osgoi Trethi' sydd â'r nod o atal pobl rhag hawlio rhyddhad os mai prif ddiben, neu un o brif ddibenion y cais, yw sicrhau mantais drethiannol.

## Rhan 4: Lesoedd

Mae'r Rhan hon ynghyd ag Atodlen 5 yn nodi sut y mae'r Dreth Trafodiadau Tir yn gymwys i'r broses o ganiatáu, amrywio, aseinio neu ildio lesoedd.

## Rhan 5: Sut mae'r Ddeddf a'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn Gymwys i Bersonau a Chyrff Penodol

Mae'r Rhan hon yn nodi sut y mae'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn gymwys i gwmnïau, ymddiriedolaethau uned, cwmnïau buddsoddi penagored, ymddiriedolaethau, partneriaethau a phrynwyr ar y cyd a phersonau eraill sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr.

## Rhan 6: Ffurflenni Treth a Thaliadau

Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â ffurflenni treth a thaliadau. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn gyfrifol am bennu ffurf a chynnwys y ffurflenni. Pan fo'r Dreth Trafodiadau

Tir yn daladwy, rhaid ei thalu i Awdurdod Cyllid Cymru. Bydd darpariaethau'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi sy'n ymwneud ag ymholiadau, penderfyniadau neu asesiadau yn gymwys o ran y Dreth Trafodiadau Tir. Bydd y gyfundrefn gosbau a sefydlwyd o dan y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi hefyd yn gymwys, yn ogystal â'r darpariaethau sy'n ymwneud â llog, adennill gordaliadau, adolygiadau ac apeliadau.

### Rhan 7: Y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi

Mae'r Rhan hon yn ymwneud ag osgoi talu treth ac yn cyflwyno, drwy ddiwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi, rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi. Bydd y rheol yn berthnasol i'r holl drethi datganoledig. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod gan Awdurdod Cyllid Cymru ddull o herio unrhyw gais i gymryd mantais o ddeddfwriaeth treth Cymru os mai'r diben yw sicrhau mantais drethiannol annheg trwy drefniant treth artiffisial.

### Rhan 8: Dehongli a Darpariaethau Terfynol

Yn cynnwys dehongliadau a darpariaethau terfynol.

### Atodlenni

Mae'r 22 o Atodlenni a geir i'r Bil yn darparu rheolau gweithdrefnol ar gyfer cymhwyso'r rhyddhadau gwahanol a fydd yn effeithio ar y ffordd y cyfrifir y Dreth Trafodiadau Tir sy'n gymwys i drafodiad penodol. Nid yw'r ffaith y gall trafodiad fod wedi'i ryddhau rhag codi'r Dreth Trafodiadau Tir arno yn golygu ei fod y tu allan i gwmpas y dreth; mae'r rheolau o ran hysbysu yn berthnasol i drafodion a ryddheir. Mae hyn yn wahanol i drafodiad esempt a fydd y tu allan i gwmpas y Bil ac nad oes angen hysbysu Awdurdod Cyllid Cymru amdano.

## 4. Costau ac effeithiau'r Bil

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a geir yn y **Memorandwm Esboniadol** yn ystyried dau opsiwn mewn cysylltiad â'r Dreth Trafodiadau Tir:

- Opsiwn 1 – gwneud dim
- Opsiwn 2 – cyflwyno 'Treth Trafodiadau Tir' newydd yng Nghymru

Opsiwn arall oedd ystyried ffyrdd eraill o drethu tir ac eiddo sy'n fwy priodol i Gymru. Fodd bynnag, mae Deddf Cymru 2014 yn cyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu er mwyn creu treth newydd yn lle Treth Dir y Dreth Stamp a daethpwyd i'r casgliad yn ddiweddarach fod yr opsiwn hwwnw'n anymarferol.

Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir oherwydd y byddai Llywodraeth Cymru yn colli refeniw treth **a allai fod yn £240 miliwn yn 2018-19 yn ôl y rhagolygon** pe na bai Cymru'n cyflwyno treth newydd yn lle Treth Dir y Dreth Stamp. Nododd Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol:

> *Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar yr adnoddau sydd ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.*

### Costau

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi manylion y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn o gyflwyno'r Dreth Trafodiadau Tir yn lle Treth Dir y Dreth Stamp . Fodd bynnag, **mae'r costau gweinyddol a nodwyd yn ymwneud â chasglu a rheoli trethi datganoledig yn fwy eang ac nid y Dreth Trafodiadau Tir yn benodol**.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, amcangyfrifir mai rhwng **£4.8 miliwn a £6.3 miliwn yw cost sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2016-17 a 2018-19**. Llywodraeth Cymru sy'n ysgwyddo'r costau hyn, ac maent yn cynnwys paratoi a chyhoeddi canllawiau, datblygu a chyflwyno hyfforddiant, a gweithredu trefniadau trosiannol er mwyn gallu casglu a rheoli'r holl drethi datganoledig yn effeithiol.

Amcangyfrifwyd y bydd costau gweithredu Awdurdod Cyllid Cymru **rhwng £2.8 miliwn a £4 miliwn bob blwyddyn gan ddechrau yn 2018-19**.

Bydd yna gostau pontio i ymarferwyr hefyd (trawsgludwyr a chyfreithwyr eiddo) o rhwng **£400,000 ac £800,000** i ddysgu am y gwahaniaethau rhwng y Dreth Trafodiadau Tir a Threth Dir y Dreth Stamp, a disgwylir i'r costau hynny gael eu hysgwyddo yn 2018/19.

Bydd cost ychwanegol i Lywodraeth Cymru, wrth i Gyllid a Thollau EM roi'r gorau i gasglu Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru. **Amcangyfrifir y bydd y gost ychwanegol hon tua £1 filiwn**.

### Cynilion

O ran arbed arian, ni fydd Cyllid a Thollau EM mwyach yn ysgwyddo'r costau sy'n gysylltiedig â chasglu Treth Dir y Dreth Stamp na'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru a disgwylir y bydd yn ad-dalu Llywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar ddata Revenue Scotland, amcangyfrifir mai **£275,000 y flwyddyn fydd yr ad-daliad o 2018-19**. Bydd tri thaliad yn ystod y cyfnod arfarnu.

## 5. Ymatebion i'r Bil

Cyflwynwyd y Bil yn y Cyfarfod Llawn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC, ar 13 Medi 2016. Codwyd y materion a ganlyn gan Aelodau.

Roedd **Adam Price AC** yn croesawu'r Bil ac yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio cynnwys llawer o'r ymateb i'r ymgynghoriad ar y Dreth Trafodiadau Tir yn y Bil. Gofynnodd am y cydbwysedd yn y Bil rhwng yr angen posibl am gysondeb a sefydlogrwydd wrth symud tuag at fframwaith i Gymru, a chreu llwyfan ar gyfer polisïau a lunnir i ymateb yn benodol i anghenion Cymru, a pholisïau a all fod yn radical o bryd i'w gilydd.

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedodd Adam Price, sef ein bod yn ceisio cael cydbwysedd yn y Bil rhwng parhad uniongyrchol—gan fod yna system y mae pobl yn gyfarwydd iawn â hi, system a chanddi hefyd lawer o gydrannau trawsffiniol hefyd, ac roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r Bil drafft gan ymarferwyr yn ddiamwys wrth ofyn i ni ddylunio system a fyddai'n gyfarwydd iddynt ar y diwrnod y caiff ei chyflwyno. Ond mae'n rhaid i ni fynd y tu hwnt i hynny, i lunio Bil a fydd yn caniatáu ar gyfer addasu'r polisi ar ôl ei gyflwyno. Dyna yw'r hyn yr ydym wedi ceisio ei wneud wrth lunio'r Bil.*

Gofynnodd **Adam Price AC** am y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau ynghylch fframwaith cyllidol Cymru hefyd, sy'n arbennig o bwysig am ei fod yn effeithio ar y drafodaeth ehangach ynglŷn â phwerau trethu a fydd yn cyd-fynd â'r gwaith o graffu ar y Bil.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*Rwy'n hapus iawn i ddweud wrth yr Aelodau fy mod wedi cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys unwaith yn barod, yn gynharach yn yr haf, ac rwyf i fod i gwrdd ag ef eto cyn diwedd y mis hwn. Y cyfarfod hwnnw fydd dechrau'r trafodaethau manwl ynglŷn â'r fframwaith cyllidol a'r mecanweithiau addasu grantiau bloc a fydd yn angenrheidiol ar gyfer y Bil hwn ac yn fwy cyffredinol o ran y ffordd y caiff trethi datganoledig eu trafod ar gyfer y dyfodol, a'r modd y byddant yn rhyngweithio â'r grantiau bloc.*

Gofynnodd yr Aelod a oedd angen ymchwiliad ehangach er mwyn penderfynu a fyddai newid o gyfundrefn treth eiddo i dreth dir yn fwy buddiol i Gymru yn y tymor hir.

Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn agored i bosibilrwydd o'r fath:

*...dyna yw natur y pwerau a ddarparwyd i'r Cynulliad hwn gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2014, sef fod gennym y pwerau i newid treth dir y dreth stamp. Mae gennym hawl i wneud hynny ar unwaith a dyna beth y mae'r Bil hwn felly yn bwriadu ei wneud. A yw hynny'n golygu y dylem ni osgoi cael dadl ynghylch cwestiynau mawrion am y gwahanol ffyrdd o fynd i'r afael â sut yr ydym yn codi refeniw, beth a ddylai gael ei drethu, sut y mae'r trethi hyn yn rhyngweithio â'i gilydd? Nid wyf yn credu y dylem ni osgoi hynny o gwbl. Rwy'n credu efallai'n wir mai'r tymor Cynulliad hwn yw'r un priodol i edrych ar y cwestiynau hynny, nid yn haniaethol, ond edrych ar sut y byddai'r syniadau hynny, mewn modd ymarferol, yn cael eu cymhwyso pe baent yn cael eu gweithredu yng Nghymru, ac yna rhoi caniatâd i'r rhai hynny sydd â'r cyfrifoldeb i wneud penderfyniadau gwybodus amdanynt.*

Roedd **Mike Hedges AC** yn croesawu'r Bil hefyd ond am gael gwybod am y ddeddfwriaeth mewn perthynas ag eiddo ar y ffin ac a fydd cyfle i bobl dalu llai o dreth drwy gael cyfran o eiddo yn rhannol yng Nghymru ac yn Lloegr, gan olygu na fydd perchennog yr eiddo yn cyrraedd y trothwy o ran treth.

Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*Rydym wedi gweithio'n agos iawn gyda'r awdurdod gwerth tir. Rydym yn credu bod yna tua 450 o eiddo—gallwn fwy neu lai eu henwi—ac mae tua 30 o'r rhai hynny yn newid perchennog mewn unrhyw flwyddyn benodol. Bydd i ba raddau y bydd eiddo yn dod o dan y drefn newydd yng Nghymru a'r drefn a fydd yn cael ei gweithredu yn Lloegr, yn dibynnu ar y graddau y bydd yr eiddo mewn un wlad neu'r llall. Felly, os bydd chwarter y tir yng Nghymru, bydd chwarter o'i rwymedigaeth yn cael ei phennu gan ein cyfraith ni, ac os bydd tri chwarter o'r tir yn Lloegr, bydd tri chwarter ohoni yn cael ei phennu gan y gyfraith sy'n gymwys yn Lloegr.*

Gofynnodd yr Aelod hefyd a fyddai'r rheol dim niwed yn gymwys i addasiad y grant bloc ar ôl i Dreth Dir y Dreth Stamp gael ei datganoli. Pe na bai'r egwyddor yn cael ei chymhwyso, roedd pryder y byddai Cymru ar ei cholled o ran cyllid os câi eiddo yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr eu cynnwys wrth addasu'r grant bloc ar ôl i Dreth Dir y Dreth Stamp gael ei datganoli.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*Mae'r egwyddor dim niwed yn hollbwysig o ran addasu grantiau bloc. Beth yw diben addasu grantiau bloc? Ei ddiben yw adlewyrchu'r ffaith na fydd Llywodraeth y DU bellach yn derbyn refeniw gan drethdalwyr yng Nghymru ar gyfer trethi sydd wedi'u*

*datganoli. Felly, os yw'r Cynulliad hwn yn gwneud penderfyniadau sy'n golygu ein bod yn gallu codi trethi, mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn elwa ar hynny; os ydym yn gwneud penderfyniadau i'r gwrthwyneb, mae'n rhaid i ni fod yn glir y byddwn ni'n wynebu canlyniadau hynny. Ond mae'n rhaid i gymaryddion felly fod yn rhai teg, a dyna'r pwynt yr oedd Canolfan Llywodraethiant Cymru yn ei wneud am effaith Llundain.*

Gofynnodd **Mike Hedges AC** eto a oedd hi'n amser trafod perthnasedd treth ar werth tir yn hytrach na threthi eiddo.

Roedd **Nick Ramsay AC** yn croesawu'r ffaith bod y Bil yn gyson â Threth Dir y Dreth Stamp, ac nad yw'n gwyro o'r dreth honno oni bai bod yn rhaid gwneud hynny. Roedd hynny'n synhwyrol yn ei farn ef yn y blynyddoedd cyntaf o weithredu'r Dreth Trafodiadau Tir. Fodd bynnag, gofynnodd yr Aelod a fyddai cysondeb yn cael ei sicrhau ar draul gwella agweddau ar y ddeddfwriaeth ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp neu'r Dreth Trafodiadau Tir.

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*Un o nodweddion treth dir y dreth stamp yw'r ffordd, fel y mae deddfwriaeth yn tueddu i wneud, y mae wedi aeddfedu dros y blynyddoedd gan fod darnau yn cael eu hychwanegu ati a darnau'n derbyn pleidlais yn rhan o Fil arall sy'n golygu ei bod yn eithaf anodd cael gwybod popeth y mae arnoch angen ei wybod. Felly, rydym mewn sefyllfa ffodus, sef ein bod ni'n gallu gwneud yr holl newidiadau hynny mewn un lle, gan wneud y gyfraith yn fwy hygyrch a dealladwy. Ac rydym yn sicr wedi dysgu llawer iawn gan arbenigwyr yma yng Nghymru—arbenigwyr ar drethi, ond hefyd arbenigwyr ym maes trafodiadau tir—ac rwy'n credu bod budd y cyngor y maent wedi'i roi o'u gwirfodd i'w weld yn y Bil.*

Nododd **Nick Ramsay AC** hefyd y pryderon ynglŷn â chael cyfundrefnau treth gwahanol yng Nghymru a Lloegr a sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ymarferwyr a leolir yn Lloegr y gallai fod yn rhaid iddynt dalu'r Dreth Trafodiadau Tir yn cael gwybod am newidiadau i'r ddeddfwriaeth.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*...mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod gan ymarferwyr ar ochr arall y ffin wybodaeth dda am y rheolau y byddant yn ddarostyngedig iddynt os ydynt yn gweithio yng nghyd-destun Cymru. Mae llawer o waith wedi'i wneud eisoes o fewn y meysydd proffesiynol gan ddefnyddio rhwydweithiau proffesiynol a chyhoeddiadau proffesiynol, ac yn y blaen, i hyrwyddo dealltwriaeth.*

Soniodd yr Aelod hefyd am bwysigrwydd y fframwaith cyllidol a'r angen i roi ffordd deg o addasu'r grant bloc ar waith er mwyn sicrhau na fydd Cymru ar ei cholled yn y dyfodol.

Siaradodd **Mark Reckless AC** am eiddo trawsffiniol a gofynnodd a fyddai'n fwy synhwyrol ac yn haws i ymarferwyr pe bai'r eiddo hyn yn cael eu trethu gan naill ai Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU yn dibynnu ar leoliad y rhan fwyaf o'r eiddo.

Gofynnodd yr Aelod hefyd pam mai Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Trafodiadau Tir oedd yn cael eu datganoli i Gymru ac a oedd y trethi hyn yn gyfle, ym marn Ysgrifennydd y Cabinet, i newid i gyfundrefn dreth i Gymru sydd ar wahân i'r DU ar gyfer tir ac eiddo yn gyffredinol. Gofynnwyd hefyd a

yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gwmnïau cyfreithiol a leolir yn Lloegr ond sy'n ymdrin ag eiddo yng Nghymru o bryd i'w gilydd ymadael â'r farchnad yng Nghymru.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *Mae gennym lyfr rheolau; rydym yn ceisio'i ddefnyddio i lunio'r system orau bosibl. A ydw i'n disgwyl y bydd ymarferwyr ar ochr yr arall i'r ffin yn gwneud llai o fusnes yng Nghymru o ganlyniad i'r Bil? Nid dyna fwriad y Bil, ond gallaf weld, yn y ffordd yr ydym wedi disgrifio dyfodol y Bil, sut y gall aros yn gymharol agos at ffyrdd hysbys o wneud pethau i ddechrau—. Mwy o wahaniaethu— nid dim ond ar ein hochr ni, ond mae'r gyfraith o ran treth dir y dreth stamp wedi newid yn gymharol gyflym ar sail Cymru a Lloegr, felly fe fydd yna newid yr ochr arall i'r ffin hefyd, a fydd yn pwysleisio'r gwahaniaeth dros amser, ac fe allai hynny newid y ffordd y mae pobl yn cyflawni eu busnes.*

Roedd yr Aelod yn teimlo bod y Bil yn ailadrodd deddfwriaeth y DU yn fwy na cheisio gwella'r ddeddfwriaeth honno er mwyn mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau Cymru.

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet drwy roi nifer o enghreifftiau o'r Bil sy'n benodol i Gymru:

> *...ceir enghreifftiau drwy'r Bil cyfan lle yr ydym wedi addasu trefniadau i ystyried anghenion a blaenoriaethau Cymru. O ran prydlesi, er enghraifft, sydd bob amser wedi bod yn bwnc o ddiddordeb yng nghyd-destun Cymru, byddwch yn gweld na fwriedir i elfen rent y prydlesi preswyl gael ei threthu dan y dreth trafodiadau tir, er eu bod yn cael eu trethu o dan dreth dir y dreth stamp. Rydym yn gwella'r rheolau ar gyfer prydlesi sy'n parhau ar ôl cyfnod prydlesu penodol ac amhenodol, sy'n bwysig mewn cyd-destun Cymreig, a hefyd rydym yn gwneud newidiadau i sut y mae'r rheolau yn gweithredu pan gaiff prydles newydd ei chaniatáu, ond bod y dyddiad y mae i fod i gychwyn wedi'i ôl-ddyddio. Bwriedir yr holl bethau hyn i fod yn gyson â'n huchelgeisiau ar gyfer sicrhau mwy o symlrwydd, cysondeb a thegwch, ond maent yn deillio'n uniongyrchol o'n profiad ni o brydlesi a lesddaliadau yma yng Nghymru.*

# 6. Amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu

Yn amodol ar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r Bil ac iddo gael Cydsyniad Brenhinol wedi hynny, dyma'r cerrig milltir a ragwelir ar gyfer ei weithredu:

– Cydsyniad Brenhinol – rhagwelir ar gyfer gwanwyn 2017

– Cyhoeddiad ynglŷn â chyfraddau'r dreth – hydref 2017

– Y dyddiad y daw'r Dreth Trafodiadau Tir yn weithredol – Ebrill 2018

– Adolygu ar ôl gweithredu – Disgwylir i'r ddeddfwriaeth gael ei hadolygu yn rheolaidd ac mewn o leiaf 3-5 mlynedd.

# 7. Crynodeb o newidiadau Cyfnod 2

## Cefndir

Cyflwynwyd y Bil yn ffurfiol yn y Cyfarfod Llawn gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ("Ysgrifennydd y Cabinet"), ar 12 Medi 2016.

Y Bil yw'r ail o dri bil i sefydlu trefniadau trethi datganoledig yng Nghymru, a dyma'r ddeddfwriaeth benodol gyntaf ynghylch trethi i gael ei chyflwyno i'r Cynulliad. Dilynir y Bil gan ddeddfwriaeth a fydd yn sefydlu **Treth Gwarediadau Tirlenwi**.

Diben y Bil hwn yw gwneud darpariaethau ar gyfer cyflwyno treth Trafodiadau Tir, a fydd yn cymryd lle Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru.

Mae'r Bil hefyd yn sefydlu deddfwriaeth i fynd i'r afael ag osgoi trethi datganoledig drwy bennu darpariaethau ar gyfer un rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi.

### Craffu

- Trosglwyddodd y Pwyllgor Busnes y Bil i'r Pwyllgor Cyllid ("y Pwyllgor") graffu arno.
- Ar 12 Gorffennaf 2016, cytunodd y Pwyllgor Busnes mai 22 Rhagfyr 2016 fyddai'r terfyn amser i'r Pwyllgor gyflwyno ei adroddiad Cyfnod 1.
- Cynhaliodd y Pwyllgor **ymgynghoriad ar egwyddorion cyffredinol y Bil**, a chynhaliodd ddigwyddiad i randdeiliaid ar 29 Medi 2016. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar rhwng 21 Medi a 3 Tachwedd 2016.
- Cyhoeddodd y Pwyllgor **ei adroddiad Cyfnod 1** ym mis Rhagfyr 2016. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad ar y Bil** yn yr un mis hefyd.
- Gwnaeth y Pwyllgor 18 o argymhellion yn ei adroddiad.
- Ar 10 Ionawr 2017, yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn, cytunodd y Cynulliad y **dylai'r Bil fynd ymlaen i Gyfnod 2**.
- Dechreuodd Cyfnod 2 ar 11 Ionawr 2017, a chyfarfu'r Pwyllgor i **ystyried a gwaredu gwelliannau** ar 16 Chwefror 2017.

## Gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2

**Cyflwynwyd 103 o welliannau**; cafodd tri eu tynnu'n ôl cyn trafodion Cyfnod 2. **Cafodd saith** eu tynnu'n ôl yn ystod y cyfarfod. Cafwyd gwrthwynebiad i dynnu un gwelliant pellach yn ôl, ond cafwyd pleidlais arno yn y diwedd. **Ni chafodd 45 o welliannau** eu symud. **Cafodd pob un o'r 43 gwelliant** a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet eu derbyn.

Nodir isod rai o'r prif newidiadau a wnaed yn ystod trafodion Cyfnod 2 (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr).

### Trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch

**Mae gwelliannau 24 i 30, 33 i 36, 40, 41 a 43** yn ymdrin â gordal ar anheddau preswyl ychwanegol. Mae'r gwelliannau hyn yn darparu ar gyfer codi cyfraddau uwch o dreth trafodiadau tir ar drafodiadau eiddo preswyl. Roedd hyn mewn ymateb i gyflwyno cyfraddau uwch o Dreth Dir y Dreth Stamp ar bryniannau eiddo preswyl ychwanegol.

## Y diffiniad o eiddo preswyl.

**Mae gwelliant 7** yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru wneud newidiadau i'r diffiniad o 'eiddo preswyl', a hynny mewn ymateb i bryderon a godwyd yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 o ran ei eglurder.

## Pwerau gwneud rheoliadau

**Mae gwelliant 1** yn ymateb i argymhelliad 11 o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor. Mae wedi'i gynllunio i:

- Drin trefniant Cynlluniau Contractiol Awdurdodedig Cyfberchnogaeth (CoACS) fel cwmni, gyda'r bwriad o wneud pryniannau eiddo o fewn cynlluniau o'r fath yn symlach yn weinyddol.
- Caniatáu cyflwyno rhyddhad yn y dyfodol, os bydd angen.
- Cyflwyno pŵer gwneud rheoliadau, a fyddai, trwy **welliant 38,** yn sicrhau y byddai'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**Mae gwelliant 37** yn sicrhau bod pwerau gwneud rheoliadau ynghylch ymddiriedolaethau uned yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'r gwelliant hwn yn ymateb yn uniongyrchol i argymhelliad 1 o'r adroddiad a luniwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

**Mae gwelliant 42** yn darparu ar gyfer pŵer gwneud rheoliadau i ddileu neu amrywio'r rheol dargededig i atal osgoi trethi sy'n gysylltiedig â thrafodion lesddaliadol amhreswyl. Mae hyn mewn ymateb i newidiadau a wnaed i ddeddfwriaeth Treth Dir y Dreth Stamp. **Mae gwelliant 39** yn sicrhau bod y pŵer gwneud rheoliadau hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

## Rheolau gohirio

**Mae gwelliant 2** yn newid ystyr y dyddiad terfyn disgwyliedig os na ellir canfod y gydnabyddiaeth ddibynnol neu ansicr. **Mae gwelliant 4** yn newid y diwrnod y dechreuir godi llog ar swm gohiriedig. **Mae gwelliant 5** yn newid y diwrnod y mae'n ofynnol talu swm o'r Dreth Trafodiadau Tir mewn achos lle gwrthodir cais gohirio.

## Deddfwriaeth Treth Gwarediadau Tirlenwi a Threth Trafodiadau Tir

**Bwriad gwelliannau 17-22** yw alinio'r ddeddfwriaeth treth gwarediadau tirlenwi a'r dreth trafodiadau tir. O ystyried nad oedd y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi yn bod pan gyflwynwyd y Bil Treth Trafodiadau Tir, mae **gwelliannau 17 a 18** yn cymryd lle Tabl A1 yn Atodlen 22 er mwyn cynnwys treth gwarediadau tirlenwi ac 'unrhyw dreth ddatganoledig'. **Mae gwelliant 19** yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r tabl. **Mae gwelliannau 20 a 21** yn gwneud newidiadau i'r dyddiadau y daw rhywun yn agored i gosbau pellach mewn achosion ble mae methiant parhaus i dalu trethi datganoledig.

## Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

**Bydd gwelliannau 13, 14, 15 a 23** yn diwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Mae'r gwelliannau hyn yn ymwneud yn bennaf â materion megis newidiadau i asesiadau, neu dynnu asesiadau yn eu hôl, a diwygiadau a wneir i ffurflenni treth pan ymchwilir iddynt, a'u bwriad yw gwneud y system yn decach.

**Mae gwelliannau 16, 31 a 32** yn gwneud newidiadau i'r dulliau diogelu a ddarperir gan adran 26 o'r Bil hwn, a'r adran 63A newydd i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Maent wedi'u cynllunio i amddiffyn y trethdalwr os cyflwynir ffurflenni treth pellach mewn perthynas â'r trafodiad gwreiddiol ac

i wneud yn glir, os na fyddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo rheoliadau cadarnhaol dros dro, bod y trethdalwr yn cael ei ddiogelu.

### Cywiriadau drafftio

**Mae gwelliannau 3, 6, 8, 9, 10, 11 a 12** yn gywiriadau drafftio a luniwyd er mwyn gwella eglurder y drafftio.

## Y camau nesaf

Dechreuodd Cyfnod 3 ar 17 Chwefror 2017. Caiff y gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 3 o'r Bil (fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 2) eu gwaredu yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mawrth 2017. Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau yw 21 Mawrth 2017

## Gwybodaeth bellach

Am ragor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â’r prif glerc cyfrifol, Catherine Hunt.